------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 28 Mehefin 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(08:45 - 09:00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:00)

## 2 Sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(09:00 - 11:00) (Tudalennau 1 - 33)

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Carla Lyne, Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Steve Vincent, Diprwy Gyfarwyddwr yr Is-Adran Effeithiolrwydd Ysgolion

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(5)-20-18 - Papur 1 - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(11:00)

**3.1 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru**

(Tudalennau 34 - 36)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 - Papur i'w nodi 1

**3.2 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 37 - 38)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 - Papur i'w nodi 2

**3.3 Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan Cwlwm yn dilyn y cyfarfod ar 24 Mai**

(Tudalennau 39 - 43)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 - Papur i'w nodi 3

**3.4 Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Gwybodaeth ychwanegol gan Estyn yn dilyn y cyfarfod ar 6 Mehefin**

(Tudalen 44)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 - Papur i'w nodi 4 (Saesneg yn unig)

**3.5 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg – y cynnig gofal plant**

(Tudalennau 45 - 47)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 - Papur i'w nodi 5

**3.6 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'**

(Tudalen 48)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 – Papur i'w nodi 6

**3.7 Llythyr oddi wrth grŵp derbyniadau hyblyg i ysgolion Cymru – Polisi Derbyniadau i Ysgolion**

(Tudalennau 49 – 57)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 – Papur i'w nodi 7 (Saesneg yn unig)

**3.8 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – Deiseb P-05-751 Cydnabod Achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant**

(Tudalen 58)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 – Papur i'w nodi 8

**3.9 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

(Tudalennau 59 – 66)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 – Papur i'w nodi 9

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod ar 4 Gorffennaf.

(11:00)

## Egwyl

(11:00 – 11:10)

## 5 Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(11:10 - 11:20)

## 6 Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru) - Trafod y prif faterion

(11:20 - 12:10) (Tudalennau 67 - 89)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-20-18 - Papur Preifat

## 7 Darparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion - ystyried yr adroddiad drafft

(12:10 - 12:55)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

CYPE(5)-20-18 - Papur 1

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Oddi wrth:** Llywodraeth Cymru
**Dyddiad:** 28 Mehefin 2018
**Amser:** 9:00 – 11:00
**Teitl:** Sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

### Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y canlynol:
   i. Lleihau maint dosbarthiadau babanod;
   ii. Adolygu'r polisi presennol yn ymwneud â lleoedd gwag, gyda phwyslais ar ysgolion gwledig, er mwyn ystyried tueddiadau twf yn y dyfodol;
   iii. Blaenoriaethu mynediad i fand eang cyflym iawn;
   iv. Y sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â gwaith athrawon cyflenwi;
   v. Datblygu'r cwricwlwm newydd;
   vi. Unrhyw oblygiadau ar gyfer y MEG Addysg yn deillio o Gyllideb Atodol Gyntaf 2018-19.

### Lleihau maint dosbarthiadau babanod

2. Cyflwynodd pob un o'r 22 awdurdod lleol achos busnes ar gyfer yr elfen refeniw £16 miliwn o'r cyllid £36 miliwn i leihau maint dosbarthiadau babanod. Aseswyd yr achosion busnes er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu amcan sylfaenol lleihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf targed, ac mae pob un o'r cynigion wedi'u cytuno bellach. O ganlyniad, bydd ysgolion ledled Cymru yn elwa ar 80 o athrawon newydd yn y lle cyntaf. Caiff yr athrawon newydd eu penodi mewn ysgolion sydd â'r dosbarthiadau mwyaf (29 o blant neu fwy) ac sydd â lefelau uchel o amddifadedd, anghenion addysgol arbennig a/neu lle mae angen gwella addysgu a dysgu. Gofynnwyd i awdurdodau lleol nodi eu gwariant yn ystod cyfnod y grant. Bydd nifer yr athrawon ychwanegol yn cynyddu wrth i ragor o ysgolion gael eu targedu dros bedair blynedd y cyllid.

3. Yn ddiweddar fe ges i gyfle i ymweld ag Ysgol Gynradd Awel y Môr ym Mhort Talbot, sef ysgol a fydd yn cael athrawes ychwanegol yn y dosbarth derbyn fis Medi nesaf. Mae'r ysgol yn llawn haeddu derbyn y grant gan fod lefelau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yno a/neu lefelau uchel o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r pennaeth wedi croesawu'r cyllid newydd a fydd yn galluogi athrawon i weithio'n agosach â phlant unigol a gwella safonau disgyblion.

4. Hyd yn hyn, mae 17 awdurdod lleol wedi gwneud cais am elfen gyfalaf £20 miliwn y cyllid er mwyn darparu rhagor o le yn yr ystafell ddosbarth os yw lleihau maint dosbarthiadau babanod yn dibynnu ar hynny. O ganlyniad, gall lle ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth gael ei greu mewn o leiaf 37 o ysgolion ledled Cymru er mwyn lleihau

maint dosbarthiadau babanod. Mae elfen gyfalaf y grant wedi cyrraedd cam olaf y broses graffu a chymeradwyo.

**Adolygir y polisi presennol yn ymwneud â lleoedd gwag, gyda phwyslais ar ysgolion gwledig, er mwyn ystyried tueddiadau twf yn well yn y dyfodol.**

5. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol ein bod wedi ymgynghori ar ddiwygio'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys cryfhau'r Cod mewn perthynas â rhagdybiaeth na chaiff ysgolion gwledig eu cau.

6. Er mwyn gweithredu rhagdybiaeth na chaiff ysgolion gwledig eu cau, mae angen diffinio ysgol wledig at y diben penodol hwnnw. Felly, gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ar ysgolion y dylid eu hystyried yn ysgolion gwledig, gan holi ymatebwyr, ar sail gwybodaeth leol, am unrhyw ysgolion eraill y dylid eu cynnwys.

7. Mae'n dda gennyf ddweud bod yna gefnogaeth gyffredinol ar gyfer cyfeiriad cyffredinol y cynigion. Fodd bynnag, dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen ymestyn y diffiniad i gynnwys rhagor o ysgolion. Rwy'n tueddu i gytuno â'r safbwynt hwn ac ymestyn y dynodiad a'r rhestr o ysgolion gwledig.

8. Cyn gwneud hynny, rwy'n gofyn am safbwyntiau awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol ynglŷn ag ymarferoldeb cynnwys yr ysgolion ychwanegol hyn. Er fy mod yn credu bod angen yr ymgysylltiad ychwanegol hwn er mwyn fy nghynorthwyo i wneud penderfyniad terfynol, mae'n golygu y bydd y broses o lunio a chyflwyno'r Cod yn cymryd mwy o amser.

9. Rwy'n gobeithio cyhoeddi crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn toriad yr haf. Caiff y Cod ei ddiweddaru wedyn i adlewyrchu'r ymatebion, cyn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol am 40 diwrnod (heb gynnwys unrhyw gyfnod lle mae'r Cynulliad wedi torri am fwy na 4 diwrnod). Ar y sail hon, rwy'n disgwyl i'r Cod diwygiedig gael ei gyhoeddi yn yr hydref, gan ddod i rym cyn diwedd y flwyddyn.

**Blaenoriaethu mynediad i fand eang cyflym iawn**

10. Mae Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol (LiDW) yn rhaglen uchelgeisiol i wella cysylltedd y rhyngrwyd mewn ysgolion a chyflwyno amrywiaeth o raglenni ac adnoddau digidol a ariennir yn ganolog trwy blatfform Hwb i holl ysgolion Cymru. Er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn a gweithredu'r camau nesaf a nodwyd yn y Gwerthusiad o'r Rhaglen LiDW, cyhoeddais y bydd cyllideb gwerth £5 miliwn ar gael yn ystod blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19 i wneud y gwaith hwn.

11. Rydym wedi cychwyn Buddsoddiad LiDW yn y rhaglen waith Band eang, trwy Rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA), er mwyn sicrhau bod gan ysgolion fynediad i wasanaethau band eang cyflym iawn, sy'n gadarn ac yn gymesur. Ar ôl ymgysylltu â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol a Chonsortia Addysg Rhanbarthol, bydd 340 o ysgolion yn elwa ar y buddsoddiad ychwanegol.

12. Mae rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol yn Buddsoddi mewn Band Eang yn datblygu'n dda, gan ragori ar yr amserlen. Hyd yma, mae 240 o gylchoedd wedi'u cwblhau, ac mae ysgolion wedi manteisio ar gysylltiad gwell. Hefyd, mae cysylltiad ffeibr wedi'i osod mewn 23 ysgol arall, a disgwylir y bydd gwaith yn cael ei wneud i gwblhau'r archebion hyn dros yr wythnosau nesaf.

13. Mae 81 o'r 340 o ysgolion nad ydynt yn derbyn gwasanaethau trwy'r rhwydwaith PSBA ar hyn o bryd wedi'u lleoli ym Mro Morgannwg neu Ferthyr Tudful. Fel rhan o'r rhaglen, sicrhaodd Merthyr Tudful a Bro Morgannwg gymeradwyaeth eu cabinetau i ymuno â'r rhwydwaith PSBA, ac maent wedi cyflwyno archebion i ddatblygu eu gwasanaethau. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd y rhan fwyaf o ysgolion ledled Cymru yn cael eu cysylltu â'r rhwydwaith PSBA (mae nifer fach o ysgolion wedi penderfynu dewis cynigion band eang masnachol).

14. Mae un ar ddeg o ysgolion ledled Cymru yn anodd eu cyrraedd o hyd oherwydd diffyg seilwaith telathrebu yn yr ardal leol i hwyluso gwasanaethau band eang digonol. Yn anffodus, ni wnaeth Rhaglen Cyflymu Cymru gyrraedd y lleoliadau hyn cyn dyddiad cau'r rhaglen ar 31 Rhagfyr 2017. O ganlyniad, mae sawl tîm ledled Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion BT i benderfynu pa ddewisiadau sydd ar gael i sicrhau bod yr ysgolion hyn yn derbyn gwasanaeth band eang priodol. Mae naw o'r ysgolion anodd eu cyrraedd wedi archebu ffeibr, ac mae trafodaethau gyda BT yn parhau er mwyn ystyried dewisiadau ar gyfer y ddwy ysgol arall.

15. Mae cytundeb wedi'i sicrhau gyda'r tîm PSBA i ddileu cyfraddau wedi'u capio yn yr holl ysgolion eraill. Er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion seilwaith band eang digonol, bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod ganddynt fynediad i gyflymder band eang sy'n bodloni/rhagor ar ddisgwyliadau. Mae'r dull gweithredu a'r amserlenni'n cael eu trafod ar hyn o bryd er mwyn rheoli unrhyw effaith ar y rhwydwaith PSBA.

16. Mae'r rhaglen LiDW wedi arwain at ddefnydd dynodedig o ffeibr mewn ysgolion, gan olygu bod y seilwaith hyd at ddrws blaen yr ysgol bellach yn ddigonol i hwyluso gwasanaeth cyflym iawn, a fydd yn helpu i gyrraedd targedau band eang ysgolion. Er bod y seilwaith i'r ysgolion yn bodoli, mae'r wybodaeth bresennol yn awgrymu nad oes gan tua 20% o ysgolion gyfarpar gofynnol, fel llwybrydd, i fanteisio ar y lled band mwyaf sydd ar gael trwy eu cysylltiad. Rydym yn ymchwilio i raglen waith i alluogi'r ysgolion hyn i fanteisio ar y lled band mwy sydd ar gael iddynt.

17. Dros y misoedd diwethaf, mae fy swyddogion wedi ymweld â nifer o ysgolion gan nodi pryderon yn ymwneud â seilwaith mewn ysgolion ynghyd â'r ffaith fod y cymorth sydd ar gael iddynt yn amrywio. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhwydweithiau ardal leol mewn ysgolion wedi'u ffurfweddu'n amhriodol, a/neu eu cynnal a'u cadw'n aneffeithiol i fodloni'r gofynion technoleg diweddaraf. O ganlyniad, mae ysgolion yn parhau i wynebu problemau wrth geisio cyrchu adnoddau a gwasanaethau dysgu digidol, er gwaetha'r ffaith fod ganddynt led band digonol, ac mewn rhai achosion, y dyfeisiau ystafell ddosbarth diweddaraf (h.y. gliniaduron a llechi).

18. Er mwyn ystyried y problemau a helpu i gadarnhau'r dystiolaeth anecdotaidd, rydym yn cynnal asesiad o tua 200 o rwydweithiau ysgolion ledled Cymru, gan lunio adroddiad 'cyflwr y genedl' ar y sefyllfa bresennol. Mae'r gwaith yn cael ei wneud ar y cyd ag awdurdodau lleol, gan mai nhw sy'n gyfrifol am reoli a chefnogi ysgolion. Dechreuodd y

gwaith tua diwedd mis Ionawr 2018 a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Gorffennaf 2018 cyn toriad yr haf.

19. Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddwyd Addysg Canllawiau Digidol ar gyfer ysgolion. Bydd y canllawiau hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth ysgolion o bwysigrwydd eu rhwydweithiau ardal leol, a'r hyn y mae angen iddynt ei ystyried cyn gwneud unrhyw fuddsoddiad ariannol mewn technoleg.

**Gwaith athrawon cyflenwi**

20. Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau ymchwiliad i waith athrawon cyflenwi, ac rwyf wedi cyflwyno diweddariadau rheolaidd. Fel y gwyddoch, cafwyd nifer o argymhellion ymarferol ar gyfer cefnogi a datblygu athrawon cyflenwi yn adroddiad Tasglu Gweinidogol y Model Cyflenwi Athrawon a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector i ystyried modelau amgen o drefnu a chefnogi gweithlu hyblyg. Bydd y pŵer i bennu cyflogau ac amodau gwaith athrawon yn cael ei drosglwyddo'n ffurfiol i Weinidogion Cymru ym mis Medi 2018, a gall system cyflogau athrawon ddod i rym yng Nghymru erbyn mis Medi 2019 fan gynharaf. Rydym wrthi'n trafod â'r sector ynglŷn â sut mae'r pwerau hyn yn gallu darparu cyfleoedd i bennu cyflogau athrawon mewn ffordd sy'n sylfaen i'n dyheadau ar gyfer y system addysg yn ehangach, er mwyn codi safonau a chefnogi a datblygu'r proffesiwn addysgu gan gynnwys y rhai sy'n gwneud gwaith cyflenwi dros dro.

21. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyflogi athrawon. O dan reoliadau rheoli ysgolion lleol, cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am drefnu gweithlu effeithiol, gan gynnwys diwallu anghenion cyflenwi dros dro. Mae angen gwneud rhagor o waith gyda'r sector, gan gynnwys awdurdodau sy'n cyflogi athrawon, ysgolion a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, er mwyn datblygu fframwaith gwasanaeth wedi'i reoli diwygiedig ar gyfer gweithwyr dros dro, er mwyn datblygu dulliau newydd o helpu i roi trefniadau cyflenwi dros dro effeithiol ar waith. Mae £2.7 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer arbrawf a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007 i gyflogi athrawon cyflenwi yn uniongyrchol. Fel rhan o'r arbrawf, bydd deunaw prosiect clwstwr mewn ysgolion yn cael eu datblygu mewn pymtheg awdurdod lleol gyda'r nod o dreialu model gweithio mwy cynaliadwy a chydweithredol sy'n cefnogi dysgu proffesiynol athrawon newydd gymhwyso ac sydd o fudd i ysgolion a dysgwyr. Amcan yr arbrawf yw recriwtio hyd at hanner cant o athrawon newydd gymhwyso i weithio mewn clystyrau sy'n cynnwys dros gant o ysgolion yng Nghymru. Bydd yr arbrawf yn cael ei werthuso i weld a yw'r dull gweithredu hwn yn cynnig model amgen hyfyw i gyflogwyr y gellid ei gyflwyno'n ehangach.

22. Un o amcanion galluogi Cenhadaeth ein Cenedl yw datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel. Rhan allweddol o hyn yw datblygu agwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol gydol gyrfa sy'n datblygu gallu ar ôl y cyfnod o Addysg Gychwynnol Athrawon ac sy'n deillio o ymchwil seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio effeithiol. Rydym yn cydnabod bod dysgu proffesiynol yn hanfodol i wireddu bwriadau diwygio'r cwricwlwm. Pan fydd y cwricwlwm drafft ar gael ym mis Ebrill 2019, mae angen i ni neilltuo amser i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r heriau dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â rhoi'r cwricwlwm ar waith mewn ysgolion. Bydd dull gweithredu dysgu proffesiynol cenedlaethol cychwynnol ar gael yn 2018 a fydd yn pwysleisio'r hawl i ddysgu

proffesiynol ar gyfer pob un o'r ymarferwyr yn y system. Bydd y dull cenedlaethol yn cael ei weithredu'n llawn o fis Ebrill 2020 ymlaen.

23. Hefyd, mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid haen ganol ar waith ynglŷn â'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu'n cael ei lunio ar y cyd a'i roi ar waith yn unol ag ymrwymiad Cenhadaeth ein Cenedl. Bydd ein dull o fonitro'r broses o gyflwyno'r cynnig dysgu proffesiynol gan yr haen ganol yn cynnwys sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael mynediad cyfartal i ddarpariaeth benodol sy'n helpu ymarferwyr i ystyried goblygiadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer eu rôl fel 'dylunwyr y cwricwlwm' yn y dyfodol.

24. Mae ysgolion ac asiantaethau yn gyfrifol am ddysgu proffesiynol parhaus athrawon cyflenwi. Er mwyn cynorthwyo datblygiad proffesiynol athrawon cyflenwi, mae trefniadau ar waith i gofrestru'r holl athrawon cyflenwi fel bod ganddynt fynediad personol i Hwb. Hyd yn hyn, mae dros ddau gant o athrawon wedi cofrestru. Hefyd, gellir defnyddio tudalennau rhwydweithio Hwb fel platfform i athrawon cyflenwi rannu adnoddau. Mae modd gwneud hyn, ochr yn ochr â dewisiadau Consortia rhanbarthol, i gefnogi dysgu a datblygu proffesiynol parhaus yn unol â blaenoriaethau addysg Cymru. Mae angen sicrhau bod cymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar gael ar gyfer athrawon o bob math, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio'n hyblyg fel athrawon cyflenwi neu athrawon dros dro. Mae Pasbortau Dysgu Proffesiynol ar gael i athrawon cyflenwi cofrestredig o bob math.

**Datblygu'r cwricwlwm newydd:**

25. Yn ystod sesiwn y Pwyllgor yn trafod y cwricwlwm newydd ym mis Rhagfyr 2017, cyflwynwyd tystiolaeth bod y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi, gyda chymorth y Grŵp Cwricwlwm ac Asesu, wedi cytuno ar y dull o drefnu gwybodaeth, profiadau a sgiliau yn y cwricwlwm. Mae'r dull "Beth sy'n Bwysig" yn nodi cwmpas a ffiniau pob Maes Dysgu a Phrofiad, ac mae Ysgolion Arloesi wedi datblygu datganiadau "Beth sy'n Bwysig" drafft gyda sail resymegol ategol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.

26. Ers mis Ionawr, mae'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi wedi diwygio'r datganiadau "Beth sy'n Bwysig" ar sail sylwadau gan eu cydweithwyr a mewnbwn eang gan arbenigwyr. Hefyd, bu'n gweithio ar fframweithiau datblygu ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.

27. Bydd y cwricwlwm newydd a'i drefniadau asesu – y Deilliannau Cyflawni – yn seiliedig ar gynnydd; felly mae'n bwysig sicrhau eu bod yn briodol. Felly, mae'r elfen hon yn cael ei rhoi ar waith mewn cydweithrediad â Camau, partneriaeth rhwng Prifysgol Glasgow a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

28. Rydym newydd gyrraedd y trydydd tro pan fydd y Grŵp Cwricwlwm ac Asesu yn adolygu datblygiad y gwaith hyd yn hyn ac yn darparu cymorth ar gyfer y gwaith sydd i ddod. Ar ddiwedd mis Ebrill/dechrau mis Mai, astudiwyd llwyddiant y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn erbyn y fframweithiau datblygu, y dull o nodi manylion ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, a strwythur y cwricwlwm sy'n datblygu. Cwblhawyd y gwaith hwn dros ddau ddiwrnod, ac roedd y broses yn un gadarnhaol.

29. Yn unol â'r ymrwymiad i gyhoeddi diweddariadau ar gynnydd, cyhoeddwyd diweddariadau yn deillio o'r adolygiad diwethaf yn gynharach yn y mis.

30. Mae'r gwaith presennol dros dymor yr haf yn cynnwys:

- Llunio Deilliannau Cyflawni drafft – mae arloeswyr cwricwlwm yn defnyddio'r fframwaith datblygu i'w llunio;
- Cytuno ar fanylion y Meysydd Dysgu a Phrofiad – mae'r arloeswyr cwricwlwm yn diwygio'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad hanfodol sydd eu hangen i gyflawni'r datganiadau "Beth sy'n Bwysig" (a'r pedwar amcan). Hefyd, maent yn gweithio i sicrhau bod cysylltiadau a dibyniaethau rhwng pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cael eu nodi a'u trosglwyddo i'r cam datblygu nesaf;
- Profi'r datganiadau "Beth sy'n Bwysig" a'r fframweithiau datblygu gyda'r arloeswyr dysgu digidol a phroffesiynol. Erbyn hyn, maent wrthi'n eu profi yn eu hysgolion a'u clystyrau a byddant yn cyflwyno adborth yn ystod cam nesaf y broses tua dechrau mis Gorffennaf.

31. Yn ogystal â'r amrywiaeth eang o arbenigwyr sy'n cyfrannu at bob Maes Dysgu a Phrofiad bellach, caiff allbwn y gwaith ei brofi ymhellach gyda'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu dros gyfnod yr haf.

32. Er bod gwaith ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi cyrraedd ei gyfnod mwyaf dwys, rydym yn hyderus o hyd ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd yr amserlenni a rannwyd yn yr hydref ac a drafodwyd yn fanwl ar 6 Rhagfyr 2017.

**Unrhyw oblygiadau ar gyfer y MEG Addysg yn deillio o Gyllideb Atodol Gyntaf 2018-19.**

33. Rydych chi wedi gofyn am fanylion unrhyw oblygiadau ar gyfer y MEG Addysg yn deillio o'r Gyllideb Atodol Gyntaf. Oherwydd amseriad Cyllideb Atodol Gyntaf 2018-19, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ar 19 Mehefin, ni allaf ddarparu gwybodaeth ar hyn o bryd.

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/03

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru

05 Mehefin 2018

Annwyl Eluned,

## Sefyllfa'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru

Ysgrifennaf atoch yn dilyn y ddadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 'Prentisiaethau yng Nghymru'[1] ar lawr y Cynulliad ar 9 Mai a'r drafodaeth ar y Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth.

Nodwyd yn yr adroddiad ac yn ystod y ddadl fod y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn prentisiaethau yn isel, a bod ffactorau megis diffyg staff addysgol yn rhwystro cynnydd. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod y Llywodraeth yn dewis cyfuno'r data am ddysgu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a gydag elfen o'r Gymraeg wrth adrodd ar ddefnydd y Gymraeg yn y sector. Dywedoch ei bod hi'n bosibl astudio unrhyw brentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os oes galw, ond mai dim ond ychydig bach o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cyfle hwn. Dywedoch hefyd fod llawer o ddysgwyr yn dewis gwneud prentisiaethau'n ddwyieithog.

Mewn nodyn briffio[2] a gyhoeddais ym mis Tachwedd y llynedd amlygais y ffaith fod llawer o ffactorau yn debygol o effeithio ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn prentisiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg awydd gan ddysgwyr fel y nodoch ond mae ffactorau pwysig eraill yn ogystal. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg

[1] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s72280/Adroddiad%20PDF%20700kB.pdf
[2] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20171114%20C%20Nodyn%20briffio%20Prentisiaethau%20%282%29.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

argaeledd cymwysterau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a diffyg gweithlu addysg sy'n medru addysgu ac asesu yn y Gymraeg. Ategodd adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau rai o'r pwyntiau hyn, gan nodi bod 'bwlch o hyd rhwng y galw tebygol a'r gallu i gwrdd'.[3] Yng nghyd-destun y casgliadau hyn oll, nid wyf yn cytuno felly bod modd astudio unrhyw brentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os yw myfyrwyr yn dymuno gwneud hynny. Yn ogystal, buasai'n dda gennyf wybod barn y Llywodraeth ar effaith y camau i gynyddu defnydd y Gymraeg mewn prentisiaethau a gyflwynwyd o dan y cynllun 'Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru' (Chwefror 2017); a hefyd, oes bwriad i ddatblygu strategaethau pellach i fynd i'r afael â'r ystod o ffactorau eraill sy'n rhwystro cynnydd.

Buaswn hefyd yn gofyn ichi ystyried yr arfer o gyfuno'r data am ddysgu cyfrwng Cymraeg gyda data am ddysgu dwyieithog a gydag elfen o'r Gymraeg, mater a nodwyd yn y drafodaeth ar 9 Mai wrth gwrs. Gwnaethpwyd hyn, er enghraifft, wrth adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg yn y sector dysgu seiliedig ar waith (ac addysg bellach) yn Adroddiad Blynyddol ar Strategaeth y Gymraeg 2016/17. Gallasai cyfuno'r categorïau hyn danseilio dibynadwyedd y data; glastwreiddio'r ystyr 'dwyieithog'; ac arwain at ddryswch o ran cynnydd gwirioneddol yn y sector. Codais bryderon tebyg mewn gohebiaeth at Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru ar 21 Chwefror eleni. Eto, roedd adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod diffyg data cywir, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ei gwneud hi'n anodd mynd i'r afael â'r mater o'r bwlch rhwng y galw tebygol am brentisiaethau Cymraeg a'r gallu i gwrdd â'r gofyn[4].

Hyderaf y bydd fy sylwadau uchod o ddefnydd i chi. Buaswn hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod y pwyntiau yn ein cyfarfod nesaf.

Yn gywir

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

[3] Ibid. t. 17
[4] Ibid. t.17

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Copi at:

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Bethan Sayed AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Lynne Neagle AC, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Eitem 3.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

11 Mehefin 2018

Dear Lynne

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 15 Mai, ynghylch craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Rwy'n ateb fel Ysgrifennydd y Cabinet â chyfrifoldeb dros broses y Gyllideb.

**Tryloywder y Gyllideb**

Yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth hon i dryloywder a bod yn agored, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd i fireinio cyflwyniad ac ansawdd gwybodaeth am y Gyllideb er mwyn sicrhau craffu effeithiol ar gynigion y llywodraeth.

Mae'r gwaith hwn yn cydnabod cymhlethdod yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ar amrywiol adegau yn ystod cylch y Gyllideb, a'r amrywiol ddibenion y mae rhanddeiliaid yn defnyddio'r wybodaeth ar eu cyfer.

Llynedd, mewn cydnabyddiaeth o gyfrifoldebau cyllidol newydd y llywodraeth - gan gynnwys pwerau trethu a benthyg ychwanegol - cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ar broses newydd ar gyfer y Gyllideb. Roedd hyn yn cynnwys protocol yn gosod proses dau gam, sydd wedi arwain at gyhoeddi mwy o fanylion a gwybodaeth ategol yn ystod dau gam proses y gyllideb.

Fel rhan o'r protocol, cytunwyd i gyhoeddi gwybodaeth ar lefel BEL (Llinell Wariant yn y Gyllideb) - lefel fanylach na'r hyn a gyhoeddwyd o'r blaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn parhau i adolygu cyflwyniad ac ansawdd gwybodaeth y Gyllideb, ac fe fyddaf yn ystyried y dystiolaeth a'r adborth o'r pwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Fel rhan o'r gwelliannau parhaus i broses y Gyllideb, rydym wedi edrych mewn ffordd gynyddol soffistigedig ar asesiadau effaith drwy gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol wrth ochr y Gyllideb ddrafft.

Wrth weithio mewn ffordd integredig rydym yn parhau i adlewyrchu'r effaith ar hawliau plant yn ogystal ag anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy drwy wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae asesiadau o effaith y cynlluniau gwario manwl yn rhan o ail gam proses y Gyllideb. Gan mai Cyllideb 2018-19 oedd y gyntaf i ni ei chyhoeddi mewn dau gam, rydym yn cydnabod bod modd i ni wneud mwy i wella asesiadau effaith o ddatblygu polisïau i broses y Gyllideb.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi argymell y dylai cyllidebau drafft yn y dyfodol ddarparu esboniad o'r ffordd y gwnaethpwyd penderfyniadau. Mae'r argymhelliad hwn yn gyson â phrosiect Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer asesiadau effaith, a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf.

Ymysg yr amcanion ar gyfer y fframwaith mae darparu dibenion clir a diamwys ar gyfer asesiadau effaith ar draws amrywiol ymyraethau'r llywodraeth; lleihau cymhlethdodau a defnyddio asesiadau effaith mewn ffordd gymesur wrth edrych ar ymyriadau. Bydd ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar ansawdd y ddealltwriaeth, y dystiolaeth a'r crebwyll ac integreiddio proses asesiadau effaith gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.



**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.
Cabinet Secretary for Finance

# Cyllid Llywodraeth Leol i Ddarparwyr Nas Cynhelir sy'n cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen

Daw Cwlwm â phum mudiad mwyaf blaenllaw'r maes gofal plant yng Nghymru ynghyd i ddarparu gwasanaeth integredig a dwyieithog a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru.

## Cefndir

Ar ôl i bartneriaid Cwlwm fod yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ar 24[ain] Mai 2018, yn y Senedd, i roi tystiolaeth ynghylch Bil Cyllido Gofal Plant Cymru, gofynnwyd i'r partneriaid ddarparu rhestr i'r Pwyllgor yn nodi'r lefelau cyllido gwahanol a roddir ledled Cymru i ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar sy'n cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, sef y ddarpariaeth a gyllidir. Mae partneriaid Cwlwm yn croesawu'r cyfle i drafod yr wybodaeth yn y papur hwn ymhellach.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i 10 awr yr wythnos o leiaf o Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, a honno'n ddarpariaeth ran-amser wedi'i chyllido. Gallai hyn fod mewn lleoliad nas cynhelir (a all fod yn feithrinfa ddydd, yn gylch chwarae, yn Gylch Meithrin, neu gan warchodwr plant) a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, neu gallai fod mewn ysgol (a gynhelir). Bydd plentyn yn dechrau derbyn Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn dair oed.

Rhaid i leoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir gael eu cymeradwyo gan awdurdod lleol (ALl) er mwyn cael cyllid i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen un ai drwy broses gomisiynu neu drwy broses dendro. Ymddengys bod rhai ALlau yn comisiynu un lleoliad mewn man darparu a dyna'r man lle gall rhieni ddefnyddio eu cynnig Addysg Gynnar (AG), drwy dalu'r lleoliad i ddarparu sesiynau Cyfnod Sylfaen lle bydd lleiafswm gofynnol o leoedd ar gael. Gall hyn gyfrannu at atal gwarchodwyr plant, yn ogystal â meithrinfeydd sy'n cynnig gofal dydd llawn, a darparwyr sesiynol, rhag gallu cynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen o gwbl. Gallai hynny effeithio ar gynnig uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, sef y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru. Hefyd, mae diffyg dewis i rieni o dan y model hwn. Mewn Awdurdodau Lleol eraill, defnyddir proses dendro i gymeradwyo darparwyr. Nid yw'r modelau hyn yn annog cynnig dewis i rieni. Er bod y rhan fwyaf o ALlau yn rhoi cyllid i ddarparwyr nas cynhelir gynnig Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, mae eto anghysondebau mawr iawn yn nifer yr ALlau hynny a fydd yn ystyried cynyddu nifer y lleoliadau, nas cynhelir ac a gyllidir, i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen neu a fydd yn ystyried cyllido Gwarchodwyr Plant cofrestredig i fod yn ddarparwr nas cynhelir.

Mae'r tabl isod yn dangos y modelau darparu gwahanol a'r cyllid a ddarperir gan bob Awdurdod Lleol. Cafodd yr wybodaeth hon ei chasglu a'i choladu gan bartneriaid Cwlwm yn seiliedig ar wybodaeth gan ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar. Nid oes gennym

wybodaeth gymharol ynghylch darparu a chyllido'r sector a gynhelir o ran darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen.

**Dengys yr wybodaeth ar y tabl atodedig mai £3.13 yr awr yw'r cyllid ar gyfartaledd, ledled Cymru, a roddir – ar sail y plentyn/yr awr – i Ddarparwyr Nas Cynhelir ddarparu'r hawl i ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen.***

Dylid nodi nad yw'r cyllid hwn wedi codi ers sawl blwyddyn, os gwnaeth o gwbl, yn y rhan fwyaf o ALlau. Yn ogystal, mae un Awdurdod Lleol o leiaf wedi gostwng ei gyllid Addysg Gynnar i ddarparwyr nas cynhelir. Yn ystod y cyfnod hwn, mae darparwyr Blynyddoedd Cynnar wedi wynebu costau cynyddol oherwydd y Cyflog Byw Cenedlaethol, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr ac ardrethi busnes, yn ogystal â chodiadau chwyddiant o ran adnoddau. Mae awdurdod lleol wedi dweud wrth un darparwr a reolir gan wirfoddolwyr i godi arian os oes modd, (a pheidio â dibynnu ar y cyllid yn unig).

*Mae cyfartaledd y gyfradd yr awr wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio blwyddyn academaidd 39 wythnos ar gyfartaledd neu 2 dymor/24 wythnos er mwyn cymharu'r sefyllfaoedd cyllido gwahanol sy'n bosibl.

| Awdurdod Lleol | Cyllidwyd; Yr Hydref | Y Gwanwyn | Yr Haf | Sawl awr yr wythnos | Y cyfraniad yr awr | Y cyfraniad y sesiwn | Y cyfraniad y plentyn, y tymor/flwyddyn | **Y gyfradd yr awr ar gyfartaledd** | Y cyfraniad at gynaliadwyedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr hyn y mae'r awdurdod lleol yn ei gyllido** | | | | | | | | | Mae llawer o ALlau yn cynnig grantiau cynaliadwyedd ond mae'r meini prawf yn amrywio ym mhob awdurdod a dim ond i ddarparwyr a reolir gan wirfoddolwyr y mae'r mwyafrif ar gael. |
| Blaenau Gwent | ✓ | ✓ | ✓ | 5 x 2 awr | | | £446.00 y tymor | **£3.43** | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | x | ✓ | ✓ | 10 awr | | | £428.00 y tymor | **£3.57** | Grant cynaliadwyedd ar gael. |
| Caerffili | x | ✓ | ✓ | 10 awr | | | £450.00/£480 y tymor | **£3.75/4.00** | |
| Caerdydd | x | ✓ | ✓ | 5 x 2 awr | | £8.28 | | **£4.24** | |
| Caerfyrddin | ✓ | ✓ | ✓ | 10 awr - 5 x 2 awr neu 4 x 2.5 awr) | £3.00 yr awr | | | **£3.00** | Grant cynaliadwyedd gwerth £1,000 ar gael |
| Ceredigion | ✓ | ✓ | ✓ | 10 awr | | | £290.00 y tymor | **£2.23** | Grant cynaliadwyedd gwerth £1,000 ar gael |

Tudalen y pecyn 41

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Conwy | x | ✓ | ✓ | 10 awr | | | £300.00 y tymor | **£2.50 a lwfans i leoliad a reolir gan wirfoddolwyr** | Cynaliadwyedd i bob lleoliad gwirfoddol ar sail nifer y lleoedd: 0-5 = £1000/ 5-10 = £750 10+ = £500 |
| Sir Ddinbych | x | ✓ | ✓ | 10 awr 4 x 2.5 awr | | | £350.00 y tymor | **£2.92** | Yn achlysurol – mae'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn |
| Sir y Fflint | x | ✓ | ✓ | 10 awr 4 x 2.5 awr | | | £350.00 y tymor/ y plentyn (wedi'i ostwng o £360 gynt, ym mis Ebrill 2017) | **£2.92** | Cynaliadwyedd – Hyd at £1,000 y flwyddyn i leoliadau a reolir gan wirfoddolwyr |
| Gwynedd | x | ✓ | ✓ | 10 awr | | | £5,717 yn seiliedig ar 16 o blant | **£ 1.49** | + thaliadau ychwanegol amrywiol, y pen, am y niferoedd dros ben yr isafswm gofynnol |
| Merthyr Tudful | ✓ | ✓ | ✓ | 5 x 2 awr | | £7.64 y sesiwn | | **£3.82** | |
| Sir Fynwy | ✓ | ✓ | ✓ | Hyd at 10 awr | | £6.50 y sesiwn | £422.50 y tymor | **£3.25** | |
| Castell-nedd Port Talbot | Ni roddir cyllid i leoliadau nas cynhelir gynnig darpariaeth Cyfnod Sylfaen. | | | | | | | | |
| Casnewydd | ✓ | ✓ | ✓ | Hyd at 5 x 2.5 awr yr wythnos | | £6.70 y sesiwn | . | **£2.68** | |
| Sir Benfro | ✓ | ✓ | ✓ | 10 awr yr wythnos | | | £390.00 y tymor (13 wythnos) | **£3.00** | |
| Powys | ✓ | ✓ | ✓ | Hyd at 12.5 awr | | Cyfrannu at bae'r staff yn dibynnu ar nifer y plant a leolir e.e. ar gyfer 24 o blant | | £1.86 yr awr, y plentyn, mewn grŵp o 24 (gan gynnwys y staff a'r rhent) | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Cyflog arweinydd,16 awr yr wythnos a 2 Gynorthwyydd 14.5 awr yr wythnos = £15,498 y flwyddyn, yn ogystal â chostau safle hyd at £1,500 i safleoedd nad ydynt yn rhai ALI. Rhoddir £500 yn ychwanegol i feithrinfeydd dydd. | | | |
| Rhondda Cynon Taf | x | ✓ | ✓ | 5 x 3 awr | 15 awr – Y tymor wedi'r 3ydd pen-blwydd | | £900.00 y tymor | **£5.00** | |
| Abertawe | Ni roddir cyllid i leoliadau nas cynhelir gynnig darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen. | | | | | | | | |
| Torfaen | ✓ | ✓ | ✓ | 10 awr yr wythnos | | | £397.00 y tymor | **£3.05** | |
| Bro Morgannwg | ✓ | ✓ | ✓ | Hyd at 5 x 2.5 sesiwn yr wythnos | Cyllid cyfatebol i ffioedd y lleoliad | Hyd at uchafswm o £11.50 y sesiwn | | **Uchafswm: £4.60** | |
| Wrecsam | x | ✓ | ✓ | 10 awr | | | £350.00 y tymor | **£2.92** | |
| Ynys Môn 2 leoliad yn cael cyllid 3 thymor | x | ✓ | ✓ | 10 awr | | | Cyllid penodedig fesul cwota: e.e. hyd at 16 o leoedd – £8,064. Hynny yw, £504 y plentyn/y flwyddyn | **£2.10** | + £300 ar gyfer offer. 17-24 o leoedd - £11,689.00 + £600. |

**Y Ffi a geir ar gyfartaledd £3.13**

Tudalen y pecyn 43

www.cwlwm.org.uk

# Eitem 3.4

CYPE(5)-20-18 – Papur i'w nodi 4

Additional information from Estyn following meeting on 6 June:

*The 35,000 pupils in the cohort referred to at committee reflects the typical number of pupils in a year group within the maintained schools sector.*

*According to the Stats Wales data there were 31,050 children accessing nursery education within the maintained sector as Nursery 2 (full nursery year) at the census point 9 January 2018. At the same census point (9 January 2018) there were an additional 5,638 children accessing Nursery 1 provision within the maintained sector. (Welsh Government, 2017). These would be autumn born children accessing the first of five terms of nursery education. There is no data available for the number of spring born children who join Nursery 1 provision in the maintained sector as they were not attending nursery at the census point.*

*There is no national system in place to capture the number of children accessing Foundation Phase within the non-maintained sector. We estimate that around 4,000-5,000 children attend Foundation Phase nursery provision (Nursery 1 or Nursery 2 equivalent) in the non-maintained sector. A proportion of parents opt out of Foundation Phase nursery provision but there is no mechanism in place to capture this information.*

References:

Welsh Government (2017) *Pupils by local authority, region and year group. Available from:* https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-yeargroup

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/03

Eitem 3.5

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Lynne Neagle AC
Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Mehefin 2018

Annwyl Lynne,

Ar y 27ain o Dachwedd 2017, fe wnaethom rannu 'Nodyn briffio ar ofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg' gyda Phwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg. Mae'r nodyn briffio yn darparu trosolwg o'r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg, ac yn cynnig amryw o argymhellion y dylid eu hystyried wrth weithredu'r cynnig 30 awr.

Yn ddiweddar mae'r Pwyllgor wedi bod yn derbyn tystiolaeth ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). O ystyried ein bod eisoes wedi rhannu'r nodyn briffio â'r Pwyllgor, a bod y Bil dan sylw yn un eithaf technegol sy'n canolbwyntio ar weinyddiaeth y cynllun 30 awr, fe benderfynom beidio cyflwyno tystiolaeth ychwanegol yn ystod cyfnod 1 y broses o gyflwyno'r Bil. Er hynny, mae wedi dod yn amlwg wrth wrando ar y sesiynau tystiolaeth bod materion llawer fwy eang yn ymwneud â'r cynnig 30 awr a'r sector gofal plant wedi codi. Mae amryw o'r sesiynau tystiolaeth yn trafod materion sydd wedi derbyn sylw manwl yn ein nodyn briffio (yn enwedig y sesiwn ar y 14eg o Fehefin, 2018). Yn y cyd-destun hwn, byddem yn awyddus i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y nodyn briffio wrth lunio ei adroddiad cyfnod 1 ar y Bil.

Ymhellach i hynny, ac wrth wrando ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mae gennym amheuon am rai o'r ffigyrau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer amcangyfrif faint o blant sy'n gymwys am y cynnig. Rydym wedi cynnwys mwy o fanylder am hyn mewn atodiad ar ddiwedd y llythyr, a gellir ei ystyried law yn llaw a'r nodyn briffio.

Yn gywir

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Atodiad 1:** Nifer y plant fydd yn gymwys am y cynnig 30 awr

Ar dudalen 13 o'r nodyn briffio, rydym yn ail-adrodd rhai o ystadegau oedd wedi eu cynnwys yng ngwaith ymchwil adran Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar 'Y capasiti gofal plant yng Nghymru' ynglŷn â nifer y plant 3-4 fyddai'n debyg o fod yn gymwys am y cynnig 30 awr. Mae gennym rywfaint o bryderon bellach nad yw'r ffigyrau hyn yn gywir.

Yn ôl yr adroddiad hwn, mae 70,000 o blant 3-4 oed yng Nghymru. Mae'n debyg fod y ffigwr hwn yn deillio o ystadegau poblogaeth canol-blwyddyn. Defnyddir y ffigwr hwn o 70,000 i amcangyfrif faint o'r plant hyn sydd a'u rhieni mewn gwaith, ac felly yn gymwys am y cynnig 30 awr. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai tua 46,000 o'r plant hyn fydd yn gymwys am y cynnig. Mae'r ffigwr yma yn debyg i'r ffigwr o 'tua 40,000' oedd wedi'i gynnwys yn y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cyflwyno'r Bil ar y 18fed o Ebrill 2018. Mae'r ffigyrau yma wedi cael eu defnyddio fel sail ar gyfer gwerthuso'r cynnig yn ystod y sesiynau tystiolaeth, ac roedd y ffigyrau yma yn rhan hollbwysig o dystiolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru ynglŷn â goblygiadau'r cynnig o ran datblygu'r gweithle. O'r hyn wyddom ni, dyma'r ffigyrau mae Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio i gyfrifo cost y cynnig 30 awr yn y lle cyntaf.

Er bod 70,000 o blant 3-4 oed yng Nghymru, mae nifer sylweddol o'r rhain eisoes mewn dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion (hynny yw, gan eu bod yn 4 oed cyn mis Medi). Mae'n bosib bod y rhagamcanion presennol yn goramcangyfrif faint o blant fydd yn gymwys am y cynnig, ac felly hefyd yn goramcangyfrif cost y cynnig 30 awr. Mae hyn a goblygiadau hynod bwysig o ran y dadleuon sydd wedi'u lleisio ynglŷn a gwneud y cynnig yn un cyffredinol i bob plentyn 3-4.

Dyma ein dealltwriaeth ni o'r niferoedd fyddai'n gymwys am y cynnig:

- Yn ôl StatsCymru, mae tua 35,000 o blant yn cael eu geni bob blwyddyn, ac felly dyma yn fras nifer y plant sydd mewn blwyddyn ysgol ar draws Cymru.
- Mae plant yn gymwys am y cynnig 30 awr ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.
- Mae ystadegau'r Llywodraeth yn awgrymu mai tua 60% o blant sy'n gymwys am y cynnig (oherwydd y gofyniad gwaith)
- Yn fras felly, gellir tybio bod tua 12,000 o blant yn cael eu geni yn ystod bob tymor ysgol (35,000 rhannu efo 3) a bod tua 60% o'r rhain (tua 7,000) yn gymwys. Ar sail y ffigyrau uchod, dyma ragamcaniad o'r niferoedd fyddai'n gymwys am y cynnig o 2018 ymlaen:

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- **Tymor yr Hydref** - 21,000 (sef un flwyddyn ysgol lawn - y rhai a gafodd eu geni rhwng 2il o Fedi 2015 a 31ain o Awst 2016 ac sydd felly ddim yn gymwys i ddechrau ysgol tan Fedi 2019)
- **Tymor y Gwanwyn** - 28,000 (sef un flwyddyn ysgol lawn a'r rhai gafodd eu pen-blwydd yn 3 oed yn ystod tymor yr hydref 2018)
- **Tymor yr haf** - 35,000 (sef un flwyddyn ysgol lawn a'r rhai gafodd eu pen-blwydd yn 3 oed yn ystod tymor yr hydref neu'r gwanwyn 2018).

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

12 Mehefin 2018

Annwyl Lynne,

Mae chwe mis wedi mynd heibio ers i mi lansio *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, sef y cynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddwn yn trawsnewid addysg ac yn cyflawni'r elfen ddysgu uchelgeisiol a geir *Ffyniant i Bawb*.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud. Yn y chwe mis cyntaf, rydym ar y trywydd iawn, ac eisoes wedi cyflawni yn erbyn y disgwyliadau a'r cerrig milltir ar gyfer 2017, ac rydym yn disgwyl gallu cyrraedd y cerrig milltir ar gyfer gwanwyn 2018 hefyd. Wedi dweud hynny, mae'r broses ddiwygio'n sylweddol, ac mae llawer o waith i'w wneud eto, er ein bod wedi dechrau ar waith y Rhaglen yn hynod gadarnhaol.

Mae ein Hysgolion Arloesi'n cynrychioli rhan fawr o'r gwaith sydd i'w wneud, ac maent yn arwain y ffordd wrth i ni fwrw ati i ddatblygu ein chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Byddwn yn falch iawn petaech yn gallu gweld y gwaith hwn â'ch llygaid eich hun. Felly, hoffwn roi gwahoddiad caredig i chi, ac aelodau eraill o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ddod i ymweld â'r Ysgolion Arloesi. Wedyn, bydd modd i chi weld a chlywed am y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud i drawsnewid addysg yng Nghymru.

Os ydych yn fodlon, bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon i aelodau'r Pwyllgor gan yr Ysgolion Arloesi yn eu hardaloedd, fel bod modd iddynt gyfarfod â'r bobl fwyaf blaenllaw yn y gwaith o ddiwygio'r system addysg a chlywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc. Wrth gwrs, mae'r cynnig o sesiynau briffio rheolaidd gan fy swyddogion i aelodau'r pwyllgor hefyd yn parhau, os ydych chi a'r aelodau yn ei weld yn ddefnyddiol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr aelodau'n manteisio ar y cyfle i gyfarfod â chynrychiolwyr ein Hysgolion Arloesi ac y byddant yn gweld yr ymweliadau'n fuddiol.

Yn gywir

Kirsty Williams

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CYPE(5)-20-18 - Papur i'w nodi 7

Dear Committee Members,

following a telephone conversation with the Clerk to your Committee, I welcome the opportunity to write to you, on behalf of the Flexible Admissions Group, Wales. Within this letter, I hope to outline the issues and complexities around Wales's current Admissions policy. I have also attached a Snapshot of case studies section, which will, I feel, help to add context to the problems encountered by parents who seek a more flexible, transparent and fair admissions policy for their child.

Currently in Wales, the age at which a child should legally be in formal education is the term after their fifth birthday. Overwhelmingly, children start their formal education journey at the age of four, in Reception. Reception is a crucial part of the child's early years experience, allowing for a gentle transition, sometimes from home, often from a nursery setting, where the basics of literacy; phonics, reading, writing, numeracy; numbering, counting, rules, new routines and socialising take place. This has been argued to be the most important school year of all by Ofsted's Bold Beginnings Report. If children enjoy this important transition into their formal education journey, given the opportunity to thrive, feel supported and acquire a 'zest for learning', this sets them on a positive journey for the years to follow, conversely, if this is not the case, children can often disengage with the learning process and the negative seeds are sown and can have long-term impacts.

Taking into account the above outline, this is where the problem arises for many members of our Facebook support group and in the wider community. Some children experience problems in their early childhood; a time where development is so variable. It is said that child development occurs at different rates, in the early years of life, levelling out at around the age of six or seven. When parents are faced with the need to apply for a full-time Reception place for their child, many needing to do so for children who are still only three years of age and some, who, for various reasons, are not ready for such a transition, where a delay would allow the child's problem/s to improve or even be solved, as he /she matures in all facets of development: physical, cognitive, emotional, developmental health issues. Such issues could be as a result of early years environmental problems, physical delays, premature birth, summer-born, especially later summer-born children. To not take these issues into account, where parents / health care professionals believe a delay would be in the child's best interests is, we believe, doing such young children a disservice and indeed, damaging.

The current Welsh Government School Admissions Policy Statutory Code (2013) states that:

> **3.30** *Although most children will be admitted to a school with their own chronological age group, from time to time parents seek places outside their normal age group for gifted and talented children, or those who have experienced problems or missed part of a year, often due to ill health. While it would not normally be appropriate for a child to be placed in a year group that is not concurrent with their chronological age,* ***admission authorities <u>should</u> consider these requests carefully and make decisions on the basis of the circumstances of each case and in consultation with the parents and the school, and specifically in relation to what is most beneficial to the child. Due regard should be given to the Educational***

***Psychologist's report, where available, and clear reasons ascertainable for such a decision to be made.***

